Cyngor Cymuned Betws-y-Coed
Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 9fed Hydref 2017

Presennol – Gwawr Jones Chairperson, Marion Betteney, Siân Godbert, Caerwyn Roberts, Clerk.

Ymddiheuriadau Gareth Wynne, Janet Charlton, Cyng. Elizabeth Roberts Cyngor BS Conwy.

Datgan diddordeb – Dim datganiad

Cofnodion
Cadarnhawyd, cofnodion cyfarfod 12fed Fedi 2017.

Materion yn codi

(1)Yr Heddlu
Nid oedd yr heddlu'n bresennol.

[1.1] Creu Mynedfa Newydd i'r Neuadd Goffa
Dywedodd y clerc bod y gwaith i greu mynedfa newydd yn debyg o ddechrau o fewn yr wythnos.

[1.2] Sedd Wag y Cyngor
Penderfynwyd gohirio'r mater hyd nes y cyfarfod nesaf.

[1.3] Lleoliad ar Gyfer Hen Giosg Coch BT
Nodwyd bod y mater yn parhau.

[1.4] Casglu Arian o Wely'r Afon/Rhaeadr Ewynnol
Nodwyd bod Siân Godbert yn parhau i wneud ymholiadau ynglŷn â chasglu'r arian.

[1.5] Adnewyddu Biniau Cwn
Nodwyd bod y mater yn parhau.

[1.6] Coed Afalau
Eglurodd y clerc bod Ysgol Betws-y-Coed wedi cytuno i'r coed gael eu plannu o fewn talgylch yr ysgol

[1.7] Tai Fforddiadwy Pentre' Du.
Cyfeiriodd y clerc at wybodaeth gan Ms Vicky Kelly yn amlinellu mai mynediad i briffordd o'r safle oedd y mater dan ystyried.

[1.8] Ffordd yn Arwain i fyny heibio Moduron Betws
Nodwyd ateb gan y Cyngor Sir y byddent yn ystyried gosod arwydd ar gyffordd yr A5 fod y ffordd "Ddim yn Addas i Loriau Trwm."

[1.9] Damwain ar Ffordd yr A5 rhwng Pentre' Du a'r Rhaeadr Ewynnol
Nodwyd bod yr eitemau oedd wedi eu gadael yn lleoliad y ddamwain wedi eu symud

[2] Banerau Hysbysebu/Posteri Surf Snowdonia/ Zip World
Nodwyd bod y posteri Zip World wedi eu symud ac y byddai APCE yn ymateb ynglŷn â'r baneri

Y brif Agenda

[2.1] Materion Cynllunio
[a] Newid dwy ffenestr gyda drysau a'r edrychiad blaen ac ailsefydlu traws ar yr edrychiad cefn. Spinnaker, Ffordd yr Orsaf, Betws-y-Coed.
Penderfynwyd nad oedd gwrthwynebiad i'r cais uchod.

[2.2] Materion Ariannol
[a] Cymeradwywyd y taliadau ar derbyniadau [a ddosbarthwyd] a wnaed yn ystod mis Medi 2017
[b] Y Rhaeadr Ewynnol - Nodwyd y ffigyrau [a ddosbarthwyd] ar gyfer cyfnodau cymharol i ddiwedd Medi 2017.
[c] Adroddiad yr Archwiliwr Allanol. Eglurodd y clerc nad oedd penderfyniad wedi ei dderbyn gan yr archwiliwr hyd i'r 30ain Fedi 2017, ac yn unol â chanllawiau statudol bod y wybodaeth wedi ei ddatgan ar y bwrdd hysbyseb.
[d] Penodiad yr Archwiliwr Mewnol. Penderfynwyd parhau gyda gwasanaeth Cwmni Busnes JDH ar gyfer gwasanaeth archwiliad mewnol. Y clerc i lofnodi'r cytundeb a'i ddychwelyd yn ôl i'r cwmni.

[2.3] Nodwyd y wybodaeth ganlynol
[a] Dathliad Pobl Hyn [J F Saunders] 3/11/17 Gwesty'r Imperial, Llandudno 2.00 -4.00
[b] Comisiwn Ffiniau I Gymru, Arolwg 2018 o Etholiadau Seneddol yng Nghymru.
[c] Gwobrau Chwaraeon Cyngor B S Conwy 24ain Dachwedd 2017, Venue Cymru 7.30 yh.
[d] Prosiect Llwybr Llechi Eryri diwrnod lansio, 10fed Dachwedd Neuadd Ogwen, Bethesda 2.00 -5.00

Cadeirydd_____